

Dylunio a Thechnoleg
Pawb

# Adeiladu Nyth

- Deunyddiau a'u priodweddau

## Trosolwg

Mae'r gweithgaredd creadigol yma'n archwilio sut mae adar yn defnyddio gwahanol ddeunyddiau a lleoliadau i greu eu nythod. Manteisiwch ar y cyfle yma i ystyried y strwythurau rhyfeddol hyn - pwysigrwydd eu cynllun a'u hadeiladwaith, a'r gwahanol feintiau, siapiau a lleoliadau sy'n cael eu dewis.

## Adnoddau

- Amrywiaeth o ddeunyddiau naturiol er enghraifft brigau, mwsogl, plu, mwd, dail, gwlân a glaswellt.

## Gweithgaredd

1. Os yw wedi'i adeiladu mewn coeden neu ar y ddaear, mae gan bob nyth yr un elfennau:
   - Wedi'i guddliwio'n dda rhag ysglyfaethwyr.
   - Cryf a chadarn i wrthsefyll y tywydd.
   - Meddal y tu mewn i warchod yr wyau a'r cywion.
2. Casglwch amrywiaeth o ddeunyddiau naturiol i greu eich nyth.
3. Edrychwch o amgylch eich tiroedd a dewis y lle gorau i adeiladu eich nyth (gwnewch yn siŵr ei fod yn rhywle y gallwch chi ei gyrraedd yn ddiogel).
4. Defnyddiwch y deunyddiau rydych chi wedi'u casglu i greu strwythur y nyth. Meddyliwch am y lleoliad, y siâp a'r adeiladwaith, i sicrhau ei fod yn gallu gwrthsefyll yr elfennau.
5. Unwaith y byddwch chi'n barod, gwnewch y tu mewn i'r nyth yn lle meddal a diogel i'r wyau a'r cywion.

## Canlyniadau a Awgrymir ar gyfer Dysgu a Chwarae

Rydyn ni'n deall y byddwch chi, fel addysgwr, yn teilwra'r gweithgaredd yma i anghenion dysgu eich myfyrwyr chi. Dyma rai o'r canlyniadau dysgu y mae ymarferyddion eraill wedi defnyddio'r gweithgaredd yma ar gyfer eu cyrraedd.

- Dylunio ac adeiladu nodwedd naturiol o ddeunyddiau rhydd
- Deall sut mae anifeiliaid yn ymddwyn er mwyn goroesi

Isod, rydyn ni wedi cynnwys rhai syniadau y mae addysgwyr eraill wedi eu defnyddio ar y cyd â'r gweithgaredd yma i bontio'r bwlch rhwng y tu mewn a'r awyr agored ar gyfer eu myfyrwyr.

| Maes Pwnc | Testun | Syniadau ar gyfer Archwilio Pellach |
|---|---|---|
| Llythrennedd ac Iaith | Adroddiadau anghronolegol | Ysgrifennu ffeil ffeithiau am wahanol rywogaethau o adar a'u nythod |
| Cyfrifiadura | Ymchwil ar-lein | Ymchwilio i wahanol rywogaethau o adar, y mathau o nythod maen nhw'n eu hadeiladu a pham |
| | | Creu dalen ffeithiau neu daflen am nythod adar |
| Gwyddoniaeth | Deunyddiau | Trafod pam mae rhai deunyddiau'n fwy addas |
| | Cadwyni bwyd | Archwilio ysglyfaethwyr a pham mae angen gwarchod nythod |
| | Bioamrywiaeth | Ymchwilio i sut mae posib gwella tiroedd ysgol i helpu adar |
| Mathemateg | Siâp | Creu nythod o siapiau, meintiau a dimensiynau penodol |

Learning through Landscapes

Os hoffech chi ddatblygu eich gwybodaeth a'ch sgiliau dysgu awyr agored, edrychwch ar ein hamrywiaeth ni o gyrsiau hyfforddi: ltl.org.uk/outdoor-learning-training

© Mae'r daflen weithgarwch yma wedi cael ei chreu gan Ymddiriedolaeth Learning through Landscapes. Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr rhif 803270 ac yn yr Alban SCO38890